

Pris: 50c

Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2018

Rhif 438



Tudalen 12: Chwarae i'r 'Scarlets'

tud 3

Ffŵl Ebrill

tud 7

Maes y Gwaed

tud 3

Eira Mawr

tud 12

Chwarae i'r Scarlets

Codi Pwysau!

Damwain Gŵyl Ddewi

Ar Ddydd Gŵyl Ddewi eleni collodd car BMW reolaeth ar yr A487 ger Ty'n y Cae, Tal-y-bont. Yn y llun dramatig yma – arbennig i *Papur Pawb!* – gwelir lori achub yn codi'r BMW sydd ynghudd yn y drain a'r mieri. Llwyddodd y car o leia i osgoi'r Ddraig Goch a'r fynedfa cyn llithro oddiar y ffordd fawr. Llwyddodd dau ddyn ifanc i ddringo allan o'r car heb niwed, er i'r car ddod i stop ar ei do. Diolch i ffotograffydd effro ond dienw am anfon y llun atom.



Na, does dim nwy gwenwynig yn y fro – ond ma' nhw'n ddillad da i gadw'r holl wynt a glaw i ffwrdd!

Codi Mwy o Bwysau!

Mae Ffion Nelves, Dolau
Gwyn, Tre'r Ddôl, wedi
disgleirio mewn codi pwysau o
fath gwahanol! Mae hi'n aelod
o Glwb Codi Pwysau Prifysgol
Bangor. Roedd Ffion, sy'n
fyfyrwraig Seicoleg yn y coleg,
yn rhan o'r tîm merched a aeth
i Northampton i gystadlu yng
nghystadleuaeth Codi Pwysau
Prifysgolion Prydain. Daeth
Ffion yn 14eg yn y categori i
ferched o dan 52kg a llwyddodd
i godi 90kg. Llongyfarchiadau
ar ddisgleirio yn y gamp
anghyffredin – ond defnyddiol!



2

Penblwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Enid Evans, Trem-y-rhos, Bont-goch, a fydd yn dathlu penblwydd arbennig ar 15 Ebrill.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Anthony Southgate, Dan y Dderwen, Tal-y-bont, sydd hefyd wedi dathlu penblwydd arbennig iawn.

Dathliadau

Llongyfarchiadau i Sion Hopkins, Dyffryn, Tal-y-bont ar gyrraedd ei benblwydd 21 oed. Hefyd Wil a Sue Hopkins sydd newydd ddathlu eu Priodas Berl.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Mererid James Cwmudw a Paul sydd newydd gyhoeddi eu dyweddiad. Pob dymuniad da i'r ddau.

Merched Pop y 60au

Hyfryd oedd gweld un o sêr pop y 1960au yn cael sylw teilwng ar y rhaglen deledu *Lle'r aeth pawb?* yn ddiweddar. Mae pobl Bont-goch yn falch iawn o'i seren bop – Meleri Mair, un o aelodau grŵp chwedlonol Y Diliau.

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da am wellhad buan i Arwel West, White Windows, Tal-y-bont sydd wedi treulio peth amser yn ysbyty Bronglais, ond sydd belllloch wedi dod adref i Dal-y-bont.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Deulwyn a Nia Evans Llwyn Ysguborwen ar enedigaeth bachgen, William John. Brawd bach i Marian a Lleucu.

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

OEDFA ARBENNIG
10.00, bore Sul, 22 Ebrill
Gwasanaeth arbennig gyda Shanta Rupala yn rhannu ei phrofiadau fel Hindŵ sy'n gweithio i Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Croeso i bawb.

EISTEDDFOD CALAN MAI
4.30, dydd Mercher, 2 Mai
Eisteddfod i bobl ardal Aberystwyth. Mynediad: £3. Cofrestru ar gyfer cystadlaethau llwyfan ac anfon gwaith cartref erbyn 17 Ebrill.

morlan.cymru
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996: post@morlan.cymru

Pobl a Phethe



Teleri Morgan, Trysorydd a'r Cadeirydd, Rhydian Evans, yn cyflwyno sic o £1981.71 i dair elusen. Codwyd yr arian trwy ganu carolau Nadolig. Rhoddwyd £660.57 yr un i Iestyn Hughes (ar y chwith) ar ran Ambiwllans Awyr Cymru a Dr Elin Jones (ar y dde) ar ran Ward Meurig, Ysbyty Bronglais. Doedd dim cynrychiolydd yn bresennol i dderbyn seic i'r elusen M.I.N.D.

Noson Agored y Panto

Diolch i Glwb Ffermwyr Ifainc Tal-y-bont am wahodd trigolion Tal-y-bont a'r ardal i weld eu panto diweddaraf, *Dafydd ap Gwilym ap Potel ap Gwrach*. Croesawyd ni, ar ran y Ffermwyr Ifainc, gan Rhidian Evans, a chawsom noson o hwyl a chwerthin a chanu a dawnio a phob drygioni sy'n gysylltiedig â phanto.

Y cyntaf i berfformio oedd aelodau Clwb Ffermwyr Ifainc Bro Ddyfi, a enillodd y wobr gyntaf yn Sir Drefaldwyn am eu sioe. Roedd yn berfformiad ardderchog ac roedd yn bleser clywed iaith Dyffryn Dyfi, a gweld cymaint o ieuencid yn mwynhau eu hunain ar y llwyfan. Roedd yn dda cael saib yn y canol, lle'r oedd cyfle i ffermwyr ifainc Tal-y-bont gyflwyno siciau o £600 yr un i Ward Meurig Ysbyty Bronglais, Ambiwllans Awyr Cymru, ac elusen "Mind". Hefyd tynnwyd raffl a chafwyd cyfle i gael sgwrs cyn yr ail berfformiad.

Tal-y-bont oedd nesaf ar y llwyfan gyda set o waith Ruth Jên yn rhoi awyrgylch gynnes braf i'r perfformiad. Yma eto roedd cyfle i ieuencid yr ardal ddangos eu doniau actio a chanu, a thynnu coes y gynulleidfa. Roedd yr actorion yn gwau i mewn ac allan o'r gynulleidfa. Diolchwyd i'r actorion a chyflwynwyd blodau i'r prif gyfranwyr gyda diolch arbennig i Ellen Pencwm a Catrin Mai awduron y sgript phrif gynhyrchwyr y panto. Diweddwyd y noson trwy gydganu'r Anthem, a phawb wedi eu boddhau yn fawr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Wendy a Simon Watkin, Heulfor, Tal-y-bont ar ddod yn famgu a thadcu gan fod Paul a Chloe wedi cael mab bach.

Cydymdeimlad

Bu farw Nia Penrhyn Lloyd, Caerdydd. Cydymdeimlwn a'i gŵr a'i brodyr John a Hugh.

Roedd yn ferch i Dr Glyn Penrhyn Jones a Mona, Garreg Lwyd, Tal-y-bont gynt.

Croeso

Croeso cynnes i Caroline de Carle sydd wedi symud i fyw i 18, Pencae, Taliesin o Dderwen-las yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Trist iawn clywed am farwolaeth Ruth, gwraig Wynne Davies, chwaer yng nghyfraith Kathleen Richards, Y Bryn, Tal-y-bont ac Ann Jenkins Llety'r Bugail. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Helen a Keith, Claerwen, Tal-y-bont, ar farwolaeth mam Helen yn ddiweddar.

Marwolaeth

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Judith Pearson, Murmur y Coed, Tre'r Ddôl, ym mis Chwefror. Ganed Judith yn Bradford, swydd Efrog, a symudodd hi a'i gŵr Mick i fyw i Dre'r Ddôl yn yr 1990au, gan fagu dau blentyn, Caroline a Tommy. Roedd Judith yn gymeriad bywiog a hoffus ac roedd yn weithgar iawn gyda'r WI yn Eglwys-fach. Bu farw Mick, fel hithau yn llawer rhy ifanc, yn 2016. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 9 Mawrth dan arweiniad Nic Dunkley. Estynnwn ein cydymdeimlad â Caroline a Tommy, ei theulu yn Lloegr a'i ffrindiau niferus yn yr ardal hon.

Marwolaeth

A'r papur ar fin mynd i brint, daeth y newyddion trist am farwolaeth Dilys Morgan Allt Goch Tal-y-bont Bu farw ar y 6^{ed} o Ebrill wedi cystudd caled a mawr fu gofal ei theulu a'i ffrindiau amdani. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bydd teyrnged i Dilys yn rhifyn nesaf *Papur Pawb*.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

**Salon Leri**
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Ysgol Tal-y-bont



Miss Bethan gyda'r plant buddugol



Parti mawr gwisg ffansi



Sêr Sgwteri



Gweithdy Gwyddoniaeth



Ffair Wyddoniaeth



Miri yn dathlu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd



Enillwyr yr ymgom



Enillwyr yr Eisteddfod



Cystadlu ar y triawd



Cantorion brwd



Gwyl Aml-sgiliau

Staffio

Ar ddiwedd y tymor fe fuom yn ffarwelio gyda Miss Bethan o'r ysgol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr i Miss Bethan am ei gwaith arbennig yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. O fis Ebrill ymlaen mi fydd yn dilyn cwrs Ymarfer Dysgu yn Llundain a hoffwn ddymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Sêr Sgwteri

Fel rhan o'n gweithgareddau gyda Sustrans Cymru, sy'n annog y plant i gyrraedd yr Ysgol heb ddefnyddio car, rydym wedi derbyn dau sgwter newydd sbon. Penderfyniad y Cyngor Ysgol oedd y dylai enwau pawb sydd wedi gwneud tro da yn yr Ysgol gael cyfle i ddefnyddio'r sgwteri yn eu hamser hamdden. Llongyfarchiadau i Edith a Carys am fod yr enillwyr cyntaf cwbl haeddiannol.

Eisteddfodau'r Urdd

Hoffwn i ddiolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu gwaith yn paratoi'r plant ac am gludo'r plant i'r gwahanol eisteddfodau. Hoffwn ddiolch yn arbennig am gymorth Catrin Mai, Catrin Jones a Sion Pennant am roi o'u hamser i hyfforddi'r parti canu a'r ymgom. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff i gyd hefyd am bob cymorth ar yr adeg prysur yma.

Llongyfarchiadau mawr i Miriam Davies ar ei llwyddiant yn dod yn gyntaf am yr unawd ac ail am lefaru unigol yn yr Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid. Pob hwyl iddi hi ac i Caoimhe wrth gystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelwedd hefyd.

Eisteddfod yr ysgol

Hoffwn i ddiolch yn fawr i bawb wnaeth ein cynorthwyo gyda'r trefniadau a'r paratoadau eleni eto. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth ennill gwobr yn yr eisteddfod. Ceulan aeth â hi eleni. Da iawn chi.

Yr Ysgol yn y Gymuned

Hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i Rachel a Jack o Brifysgol Aberystwyth am fore llawn hwyl yn arbrofi efo gwahanol fathau o siocledi.

A hefyd, hoffwn ddiolch yn fawr i'r Brifysgol am ein gwahodd i wledd o weithgareddau gwyddonol cyffrous yn y Ffair Wyddoniaeth flynyddol.

Ysgol Iach

Diolch yn fawr i griw Ceredigion Actif am drefnu bore prysur o ddysgu sgiliau chwaraeon hefyd yn y Brifysgol. Roedd hyn yn cyd-fynd gyda dechrau Gemau'r Gymanwlad ac mae'r plant wedi gwisgo mewn gwyrrd oherwydd ein bod wedi cynrychioli Jamaica ar y bore.

Diwrnod y Llyfr

Oherwydd y tywydd garw a'r eira ar ddechrau mis Mawrth, bu'n rhaid gohirio rhai o'r gweithgareddau arferol am rai diwrnodau. Ond roedd yn rhaid dathlu hefyd, felly cyfunwyd gweithgareddau Gŵyl Dewi, Diwrnod y Llyfr a Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrrd yr Urdd a chael un parti mawr!

Diolch i Gareth a Bev, Y Llew Gwyn

Ar ran staff, rhieni a phlant Ysgol Tal-y-bont, estynnwn ddiolch enfawr i Gareth a Bev Pritchard, Y Llew Gwyn, Tal-y-bont am ei haelioni ac am ei cefnogaeth i'r ysgol. Cynhaliwyd noson Bingo yn y dafarn ar Sul, 1^{af} o Ebrill a llwyddwyd i godi £236 ar gyfer yr ysgol. Yn ogystal â hyn, bu Gareth a Bev yn ddiwyd yn rhoi heibio darnau copr o arian ac wedi iddynt ei cyfrif i gyd, cyflwynwyd £64 ychwanegol i'r cyfanswm mewn 2c a 1c! Dyma beth yw hwb ariannol sylweddol o £300 i goffrau'r Ysgol. Diolch eto – gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

EISTEDDFOD YR YSGOL – canlyniadau

C – Ceulan L - Leri

Llefaru Dosbarth Derbyn

- 1. Edith - L
- 2. Deio - C
- 3. Cadi - L

Canu Dosbarth Derbyn

- 1. Blythe - C
- 2. Edith - L
- 3. Alys - C

Llefaru Blwyddyn 1

- 1. Tomos - L / Martha - L
- 2. Maia - C
- 3. Ishka - L / Rowan - L

Canu Blwyddyn 1

- 1. Rowan - L / Swyn - C
- 2. Leah - L / Lela - L
- 3. Rosie - C / Shae - C

Llefaru Blwyddyn 2

- 1. Hedydd - L
- 2. Siskin - C
- 3. Oska - L

Canu Blwyddyn 2

- 1. Hedydd - L
- 2. Oska - L
- 3. Siskin - C

Llefaru Blwyddyn 3

- 1. Ela - C
- 2. Bleddyn - L
- 3. Hopcyn - L / Kelsey - C / Osian - L

Canu Blwyddyn 3

- 1. Amber - C
- 2. Ela - C
- 3. Osian - L

Llefaru Blwyddyn 4

- 1. Elen - L
- 2. Evie - C / Alice - L
- 3. Ava - C / Grace - L

Canu Blwyddyn 4

- 1. Lauren - L / Ava - C
- 2. Grace - L / Evie - C
- 3. Elen - L

Llefaru Blwyddyn 5

- 1. Caoimhe - C
- 2. Glain - C / Celsea - C
- 3. Elen - L / Carys - C

Canu Blwyddyn 5

- 1. Caoimhe - C
- 2. Glain - C
- 3. Rhoswen - L

Llefaru Blwyddyn 6

- 1. Miriam - L
- 2. Efa - C
- 3. Violet - C

Canu Blwyddyn 6

- 1. Miriam - L
- 2. Efa - C
- 3. Ellie - L

Llinynnol CA2

- 1. Caoimhe - C
- 2. Miriam - L

Chwythbrennau CA2

- 1. Glain - C
- 2. Miriam - L
- 3. Carys - C

Piano Blwyddyn 3 a 4

- 1. Evie - C / Grace - L

Piano Blwyddyn 5 a 6

- 1. Efa - C
- 2. Miriam - L
- 3. Elen - L

Côr

- 1. Ceulan / Leri

Cerdd y Gadair

- 1. Miriam Davies - L
- 2. Glain Jones - C
- 3. Elen Lloyd-Williams - L

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 3

- 1. Osian - L
- 2. Ela - C
- 3. Kelsey - C / Jayden - C

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 4

- 1. Elen - L
- 2. Alice - L
- 3. Finley - C

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 5

- 1. Glain - C
- 2. Lewys - L
- 3. Caoimhe - C / Elen - L

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 6

- 1. Miriam - L
- 2. Efa - C
- 3. Violet - C / Zak - C

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 3

- 1. Hopcyn - L
- 2. Jayden - C
- 3. Osian - L

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 4

- 1. Elen - L
- 2. Evie - C
- 3. Finleu - C

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 5

- 1. Glain - C
- 2. Caoimhe - C
- 3. Carys - C / Celsea - C

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 6

- 1. Miriam - L
- 2. Violet - C
- 3. Efa - C

Llawysgrifen Blwyddyn 1

- 1. Martha - L
- 2. Hari - L
- 3. Demie - C

Llawysgrifen Blwyddyn 2

- 1. Hedydd - L
- 2. Oska - L
- 3. Siskin - C

Llawysgrifen Blwyddyn 3

- 1. Amber - C
- 2. Kelsey - C
- 3. Osian - L / Ela - C

Llawysgrifen Blwyddyn 4

- 1. Ava - C
- 2. Evie - C
- 3. Elen - L / Tyler - C

Llawysgrifen Blwyddyn 5

- 1. Caoimhe - C
- 2. Glain - C
- 3. Celsea - C

Llawysgrifen Blwyddyn 6

- 1. Violet - C
- 2. Miriam - L
- 3. Efa - C

Celfwaith Cyfrifiadurol Dosbarth Derbyn

- 1. Minnie - L
- 2. Alaw - L
- 3. Alexander - C

Celf Dosbarth Derbyn

- 1. Deio - C
- 2. Alaw - L
- 3. Edith - L

Celf Blwyddyn 1

- 1. Hari - L
- 2. Joel - C
- 3. Ariana - L

Celf Blwyddyn 2

- 1. Siskin - C
- 2. Oska - L
- 3. Hedydd - L

Celf Blwyddyn 3

- 1. Osian - L
- 2. Amber - C
- 3. Hopcyn - L

Celf Blwyddyn 4

- 1. Ava - C
- 2. Evie - C
- 3. Grace - L

Celf Blwyddyn 5

- 1. Celsea - C
- 2. Rhoswen - L
- 3. Scarlett - C

Celf Blwyddyn 6

- 1. Violet - C
- 2. Efa - C
- 3. Iestyn - C

Enillwyr:

Tlws Llenyddiaeth – Miriam Davies / Glain Jones / Elen Lloyd-Williams
Tlws Celf a Llawysgrifen (Tarian Catrin Maesmeillion) – Violet Jordan / Ava Lewis
Tlws Mair Nutting (llefaru) – Caoimhe Melangell
Cwpan J. D. Jones (canu) – Miriam Davies
Cwpan J. D. Jones (offerynnol) – Efa Saunders-Jones (Piano)
Cwpan Anwylyd Evans Marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen – Hedydd Beechey
Tarian Geoff a Bethan Davies (Perfformiad gorau yn y Cyfnod Sylfaen) – Hedydd Beechey
Tarian Dylan a Dwynwen Morgan Marciau uchaf yr Eisteddfod – Miriam Davies
Tarian Carregcadwgan i'r tŷ buddugol – Ceulan

Capteiniaid:

Ceulan – Efa Saunders-Jones, Violet Jordan
Leri – Ellie Ellis-Evans, Miriam Davies

Ffŵl Ebrill 1998 – Y Dôm Da!

Yn ystod Gwanwyn 1998 roedd llawer o sôn am yr holl arian oedd yn cael ei wario ar godi Dôm y Mileniwm ar lannau'r Tafwys yn Llundain, ac wrth baratoi rhifyn 1 Ebrill o *Bapur Pawb* y flwyddyn honno dyma benderfynu cael ychydig bach o hwyl a dychmygu sut fyddai'r Patshyn Glas yn edrych o dan orchudd Dôm.



Creais lun dychmygol o'r adeilad gan ysgrifennu pwt o hanes, a'i gyhoeddi ar y dudalen flaen, gan gymryd yn ganiataol y buasai pawb yn gweld y jôc.

Yr eiliad yr ymddangosodd y rhifyn, fodd bynnag, dyma gymydog annwyl, sydd bellach wedi ein gadael, yn galw wedi gwylltio'n lân fod arian cyhoeddus prin yn cael ei wario ar y fath adeilad erchyll. Rhaid oedd gwrthwynebu codi Dôm yng nghanol Tal-y-bont ar bob cyfrif a diogelu'r Patshyn Glas.

Doedd dim sôn am *Fake News* y pryd hynny, ond fe achosodd stori ffug ym *Mhapur Pawb* dipyn o hwyl ugain mlynedd yn ôl. Arnaf i oedd y jôc olaf fodd bynnag, gan i mi anghofio newid dyddiad y Papur i Ebrill, ac wrth edrych ar ôl rifynnau *Papur Pawb* fe welwch fod dau rhifyn mis Mawrth wedi ymddangos yn 1998!

Dyma'r stori a'r llun. Mwynhewch (a Ffŵl Ebrill hapus i bawb).

DPD

MAWRTH 1998

Arian Loteri i Dal-y-bont

Gallwn ddatgelu heddiw bod Cronfa'r Mileniwm wedi cytuno i gyfrannu 75% o gost adeiladu Dôm ar y Patshyn Glas, Tal-y-bont.

Gwnaethpwyd cais gan Ymddiriedolwyr Cronfa Ceulan, a fu'n cyfarfod dros y misoedd diwethaf i ystyried ffyrdd o ddathlu'r flwyddyn 2000.

Bydd y Dôm, sef fersiwn llai o'r *Millenium Dome* sy'n cael ei godi yn Llundain, yn cael ei agor yn swyddogol ar Ionawr 1^{af} yn y flwyddyn 2000.

Eisoes cymeradwywyd y cynllun o eiddo Jenkins, James, Jones, Davies & Evans, ymgynghorwyr lleol, a bydd y gwaith tyllu yn dechrau mis Medi eleni.

Y bwriad yw defnyddio deunyddiau lleol, a bydd y to yn cynnwys paneli solar a melinau gwynt bychain ar bob polyn a noddir gan Dr Dafydd Huws.

Mewn datganiad dyddiedig 1 Ebrill, dywed llefarydd ar ran yr ymddiriedolwyr mai'r bwriad yw codi adeilad a fydd yn ein hatgoffa am ganrifoedd i ddod o'n treftadaeth gyfoethog. 'Tu mewn i'r Dôm byddwn yn trefnu arddangosfa o greiriau lleol, gan gynnwys olwyn ddŵr, melin wlân, tractor a pheiriant argraffu', meddai, 'yn ogystal â'r seddi ochr sydd ar fin cael eu tynnu o gapel Bethel'.

Er mwyn ymdopi â'r ymwelwyr fydd yn heidio i'r pentref i weld y Dôm bydd maes parcio yn cael ei adeiladu ar gaeau'r Llew Du, a bydd rhaid symud Sioe Tal-y-bont i leoliad arall.

Y gost, fodd bynnag, sy'n debygol o boeni rhai pobl, gyda 25% o'r gost, sef £50,000 yn gorfod cael ei godi'n lleol. Eisoes derbyniwyd addewid o nawdd gan un busnes lleol (sy'n dymuno aros yn ddi-enw), a disgwylir i Gyngor y Celfyddydau noddi murlun gan Ruth Jên dros y Dôm i gyd.

Cyhoeddwyd hefyd bod cystadleuaeth i enwi'r Dôm a dylid anfon eich cynigion at *Bapur Pawb* erbyn 1 Ebrill 1999. Yr awgrym mor belled yw **Y Dôm Da**.

Eisoes gwahoddwyd y grŵp pop Dôm, a'u canwr Sion Dôm i berfformio yn y seremoni agoriadol.

Hufen lâ yn Nhrê'r Ddôl

Roedd plant Tre'r Ddôl wrth eu boddau pan ddeuai'r dyn hufen iâ i'r pentref ganol yr 1930au. Gallent brynu cornet am ddimai oddi wrth y cyflenwyr Eidalaidd, Antoniazzi, a deithiai o Aberystwyth ar gefn beic modur a char-ochr. Diolch i Mrs Kathleen Richards am y llun. Mae wedi adnabod llawer o'i cyfoedion ymhlith y plant:



Chwith i'r dde rhes flaen: Jean Davies, Gwilym Roberts, Catherine Davies, Hugh Davies, Emily Edwards, Eric Roberts, Thelma Beechey; rhes gefn: ?, John Gilbert, Gwennie Edwards, Billie Evans, ?, ?, ?, Madge Evans (Commercial), Mary Elizabeth Roberts, Gracie Beechey, Catherine Thomas, May Tynllwyn.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Proffadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cigydd
Porchell
01970 828 447
Pendre, Bow Street
Pa brofiad sy'n well na blasu ciogedd 'Porchell'

HUW LEWIS
M.O.T. CENTRE
TEIARS
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

1. Swydd y Clerc

Cytunwyd i hysbysebu swydd y Clerc am y trydydd tro. Y dyddiad cau newydd yw 27 Ebrill, 2018. Os oes gan unrhyw un diddordeb, dylid cysylltu â'r Clerc presennol, Lowri Jones: cyngorcam@gmail.com. Gellir cael sgwrs anffurfiol dros y ffôn ar 07886 367027.

2. Gosod Arwydd Ffordd "Plant yn Chwarae",

Bont-goch

Adroddodd y Cynghorydd Emyr Davies fod yr arwydd bellach yn ei le – er iddo gael ei osod y ffordd anghywir. Diolch i Emyr a'i sbaner, mae'r arwydd yn

gwynebu'r ffordd gywir erbyn hyn.

3. Mannau Pasio, ffordd Bont-goch

Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn y newyddion da ei bod wedi derbyn ymateb wrth Phil Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion. Cadarnhaodd Phil fod y Cyngor Sir am ddarparu tri man pasio ar hyd yr adran dan sylw (ffordd C1019 o riw Cwmere i Dal-y-bont). Nododd y bydd y gwaith yn golygu cau ffordd lawn am gyfnod y gwaith, ac amcangyfrifir y cymerith 3 wythnos i'w gwblhau. Esboniodd mai'r bwriad yw cyflawni'r gwaith yn ystod rhaglen waith

2018–19.

4. Cyflymder Traffig – A487

Cytunwyd i ysgrifennu at Go Wales a Chomisiynydd yr Heddlu, Dafydd Llwyd, ynglŷn â chyflymder peryglus y ffordd. Yn ogystal, cytunwyd i ysgrifennu at adran Addysg, Cyngor Sir Ceredigion, i ofyn iddynt gynnal asesiad risg o'r ffordd i ysgol Tal-y-bont, gan dynnu sylw at y ffordd fawr.

5. Dewis Cymru – Cais i Bawb Lenwi Blychau ar y Map

Derbyniwyd hysbys wrth Dewis Cymru ei bod am annog pobl i gofnodi eu clybiau, cymdeithasau, grwpiau lleol ayb ar ei map rhyngweithiol ar lein. Ei nod yw mapio 'adnoddau' lleol sy'n hyrwyddo lles – gan

gynnwys lles cymdeithasol. Mae modd chwilio'r mapiau yma, a chanfod cyfleoedd lleol i gymdeithasu (a mwy). I gofrestru neu chwilio adnodd, ewch i www.dewis.cymru. Dim ond 2 adnodd sydd wedi'u cofrestru hyd yn hyn yn yr ardal.



LRJ
**Plymio
cyffredinol
a chynhaliath**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



EBRILL

Mae'r gwanwyn i'w weld o'n cwmpas ym mhob man ac mae'n amser i dorchu llewys yn yr ardd. Mi fydd y coed blodeuog yn harddu'r fro ym mis Ebrill. Dyma un o'r misoedd mwyaf cynhyrfus i'r garddwr gan fod modd plannu'r rhan fwyaf o hadau. Fel arfer, y mae'r hadau a blannwyd eisoes dan wydr yn tyfu ymlaen yn llwyddiannus. Mae'n amser i blannu y tu allan – ond gwyliwch rhag barrug a rhew dros nos. Gallwch ddechrau rhoi sylw i'r lawnt hefyd. Ar ôl yr holl law rydan ni wedi'i gael, gallai ychydig o fwyd wneud lles iddi ynghyd â'i hawyru drwy balu fforc drwyddi fesul troedfedd.

TASGAU

1. Cadwch y chwyn dan reolaeth – eu dal nhw'n gynnar sydd eisiau cyn iddyn nhw wneud meistr arnoch chi.
2. Gwyliwch rhag i flodau'r coed a'r llwyni ffrwythau gael barrug.
3. Clymchwch y rhosod sy'n dringo.
4. Rhowch fwyd i'r rhosod a llwyni eraill.
5. Mae'n amser hau blodau blwyddol a hadau perlysiau.
6. Gallwch roi ychydig mwy o ddŵr i blanhigion tŷ.
7. Gallwch hau lawnt newydd neu drwsio manau moel.
8. Gallwch roi pryd o fwyd i'r rhosod ddechrau mis Ebrill ac eto wedyn ddechrau mis Mehefin.

Er gwaetha dyddiau byr ac eira cynnar a rhew, mae Dyma'r amser prysuraf o safbwynt plannu. Plannwch eich prif gnwd o datws. Tynnwch y rhan fwyaf o'r egin oddi arnyn nhw gan adael ond rhyw ddau neu dri. Cofiwch roi digon o dail i'r tatws a throedfedd dda rhyngddyn nhw. Gallwch hau persli hefyd; mae rhai yn rhoi dŵr cynnes iawn ar yr hadau gan nad ydynt yn egino'n hawdd. Gallwch hefyd hau pys, moron a sawl llysieuyn arall.

Yn y tŷ gwydr, mae'n amser hau tomatos a'r blodau blwyddol. Mae'r betys yn un o'r llysiau gorau y gallwch eu tyfu. Mae'r croen piws yn cynnwys 'betaine', sydd, mae'n debyg, yn lleihau clefydau ar y galon a'r posibilid o gael strôc. Mae'n cynnwys magnesiwm a haearn, felly mae'n dda i'r gwaed. Mae betys yn hoff o bridd gyda draeniad da (er heb fod yn rhy sych), gyda gwres. Rhaid plannu pob betysen gyda tua 4"–6" [10cm–15cm] rhyngddyn nhw, er mwyn i'r planhigion gael dechrau da.

(drwy garedigrwydd Llais Arduwy)

Colofn Ben Lake

Gwarth y Banciau

Yn fy ngholofn ddiwethaf ym mis Chwefror, bu i mi ymateb i benderfyniad trychinebus NatWest i gau canghennau yn Aberteifi a Llambled, a dros yr wythnosau diwethaf dwi wedi bod yn ymgyrchu'n chwyrn yn erbyn y penderfyniad ar lefel lleol, cenedlaethol ac yn y siambr yn San Steffan.



Mae hi'n warthus bod banciau'n medru gadael ein trefi gwledig heb fawr ystyriaeth i'r goblygiadau gaiff hynny ar gwsmeriaid, busnesau a'r gymuned leol. Rydym eisoes wedi profi yr effaith ysgytwol mae cau canghennau wedi ei gael ar drefi a chymunedau yng Ngheredigion. Fy mhryder nawr, fel nifer ohonoch, yw bod cau canghennau Natwest yn Aberteifi a Llambled ond yn gychwyn ar gyfnod lle bydd mwy-fwy o fanciau yn hel eu pac a gadael ein trefi ar fyr rybudd. Yn hynny o beth, rwyf wedi ysgrifennu at reolwyr y banciau sy'n parhau i fasnachu yng Ngheredigion gan ofyn am warant o'u presenoldeb hir dymor yn y sir.

Tu hwnt i hyn, rwyf hefyd wedi mynd ati i leisio fy mhryderon yn San Steffan, gan gyflwyno mesur fydd yn ei gwneud hi'n anoddach i fanciau gefnu ar ein cymunedau. Tair prif elfen sydd i'r mesur, ac maent yn adleisio nifer o'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd yn Aberteifi a Llambled rai misoedd yn ôl, sef:

- Newid y protocol 'Access to Banking' fel bod angen i fanciau ystyried yr amser teithio i'r banc agosaf – nid y pellter yn unig;
- Creu 'hwb' bancio – gan newid y gyfraith i alluogi banciau i gydleoli mewn adeiladau a rhannu gwasanaethau. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n fwy cost effeithlon i fanciau fedru aros ar agor yn lleol;
- Cynyddu gallu'r Swyddfeydd Post Lleol i ddarparu mwy o wasanaethau bancio.

Bu i mi gyflwyno'r mesur i'r Senedd ar 27 Chwefror, ac yn dilyn cefnogaeth gan bob plaid wleidyddol, rwy'n falch iawn y bydd y mesur yn cael darlleniad pellach fis Tachwedd eleni.

Gyda thwf technoleg, does fawr amheuaeth bod arferion bancio wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni ddylai'r chwyldro digidol fod yn gyfiawnhad dros ddisodli rôl hollbwysig banciau fel calon ariannol ein trefi. Mae'n hen bryd bod anghenion bancio ein cymunedau gwledig yn cael eu parchu a'u diogelu.

MAES Y GWAED

O Dal-y-bont i Fflandrys: hanes Tedi Rees

‘Dyw enw Edward Davies Rees (Tedi Rees) ddim i’w weld ar y gofeb yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ond roedd ganddo gysylltiad cryf â’r pentref.

Cafodd ei eni yn Aberdâr yn 1888 ond, pan oedd yn blentyn, symudodd ei deulu i Dal-y-bont, gan ymgartrefu yn hen gartref teuluol ei dad, Brondirion, ar y ffordd rhwng Tal-y-bont a Phentrebach. Saer oedd y tad, Richard Rees, ac Alice oedd enw’r fam. Daethant yn aelodau o gapel Bethel ac amlygodd Tedi ei hun mewn eisteddfodau a chystadlaethau lleol, yn arbennig fel adroddwr. Tua 1906 symudodd y teulu yn ôl i Aberdâr i fyw, gyda Tedi â’i fryd ar ddod yn weinidog.

Yn 1911 teithiodd Tedi i Batagonia gan dreulio pum mlynedd yn Y Wladfa. Yno bu’n gweithio fel cyfrifydd yng ngorsaf Madryn a phregethu ar y Suliau yng nghapeli Cymraeg y Wladfa. Am gyfnod bu’n cyd-weinidogaethu gyda’r Parch. Esau Evans yng Nghwm Hyfryd ac Esquel.

Mewn teyrnged iddo yn *Y Dravod*, papur newydd Cymraeg Patagonia, disgrifiwyd Tedi Rees fel a ganlyn:

Yr oedd iddo air da gan bawb ddaeth i gyffyrddiad ag ef, ac iddo gymeriad unplyg, gonest, a di-dderbyn wyneb, o fuchedd lân ac o rodïad gweddus. Yr oedd yn ŵr ieuanc a hoffid yn fawr, mewn cylchoedd neilltuol ac mewn cymdeithas.

Dychwelodd i Gymru ym mis Mawrth 1916 gan ymuno â’r Oxford Cadet Corps er mwyn paratoi i ddod yn swyddog gyda’r fyddin. Derbyniodd gomisiwn gyda’r Ffiwsilwyr Cymreig (RWF) a’i ddyrchafu’n lefftenant, cyn teithio i faes y gad yn Rhagfyr 1916.

Ymunodd â’r 16^{eg} bataliwn o’r RWF yn Fflandrys ar 2 Ionawr 1917. Roedd y bataliwn wedi dioddef cyfnod hynod anodd ar y Somme ym mis Gorffennaf 1916 a throsglwyddwyd hwy i ardal Ieper (Ypres) yn bennaf i warchod safleoedd amddiffynnol.

Ar 13 Mehefin 1917, symudwyd y bataliwn i gymryd lle’r 15^{fed} bataliwn yn y llinell flaen i’r gogledd o dref Ieper, ger camlas Yser, ac nid nepell o’r man lle y lladdwyd Hedd Wyn saith wythnos yn ddiweddarach. Yn ystod y cyfnod o symud i’r ffosydd yno, peledwyd y bataliwn gan sielïau’r Almaenwyr ac anafwyd wyth milwr a lladdwyd un. Yr un anffodus oedd Tedi Rees.

Claddwyd ef ym mynwent Essex Farm ger y gamlas, tua milltir i’r gorllewin o Ieper. Dyma’r fynwent lle y claddwyd hefyd John McCrea, awdur y gerdd enwog:

In Flanders fields the poppies blow,

Between the crosses row on row...

Mae’n amlwg i’r newyddion trist gyrraedd Tal-y-bont gan i Edward Evans, Lerry Stores, lunio cerdd goffa i Tedi Rees. Byddai Edward Evans yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol ac mae sawl un o’i gerddi wedi goroesi a’u cadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dyma’r gerdd:



Mynwent Essex Farm lle y claddwyd Tedi Rees

Er cof am y diweddar Edward D Rees (Tedi) Gynt o Frondirion, Tal-y-bont

- | | |
|-------------------------------------|--------------------------------------|
| 1. | 5 |
| Mor llon ydyw gweled blodeuyn, | Edmygwyd ei ddoniau a’i allu, |
| Yn fywiog ar fynwes yr ardd, | Gan un o Eglwysi y wlad, |
| Agora ei ddail yn y gwanwyn, | Fe’i galwyd i gymwasanaethu, |
| Yn hynod odidog a hardd. | A’i Hybarch ofalus hen dad. |
| Yn hanes y “Rhosyn” ddeniadol, | Cydweithiodd y ddau yn llwyddiannus, |
| Cawn ddarlun o’n “Tedi” dinam, | Am dymor mewn Urddas a bri; |
| Yn agor ei feddwl addawol | Ond oh! wele gennad gwynfanus, |
| Tan ofal tirionaf ei fam. | Yn cyrhaedd y fro tros y lli. |
| 2. | 6 |
| Dilynwn ei gamre i’r ysgol, | O’i heldrin daeth atsain y frwydr, |
| Yn blentyn diniwed a llon; | Disgynodd o bell ar ei glyw; |
| I dderbyn ei wersi’n feunyddiol, | Cyffyrddodd ochneidiau ei frodyr, |
| Heb arwydd o fraw ar ei fron. | A’i fynwes hyderus i’r byw |
| Yng ngwanwyn ei fywyd datblygodd, | Daeth atgo am “aelwyd” a “chartre”, |
| Ei dalent yn ŵyl yn ein mysg; | Yng Ngwalia ar waelod y glyn, |
| A’i oes ar ei hyd a gysegrwyd | A swynion hudolus y “Pentre”; |
| I feithrin gwybodaeth a dysg. | Lle treuliodd ei faboed yn wyn. |
| 3 | 7 |
| Ym Methel Tal’bont Ceredigion, | Yng ngwres ei deimladau dyngarol, |
| Dechreuodd ymarfer ei ddawn, | A dewrder arferol ei fron, |
| Cyflwynodd hoff aelwyd “Frondirion” | Anturiodd ei anian arwrol, |
| Ei haddysg i “Tedi” yn llawn. | Yn ôl tros beryglon y don. |
| Yng nghwmni ei geraint a’i deulu, | Gwrandawodd ei galon wladgarol, |
| Cynhyddodd mewn Rhinwedd a moes, | Ar alwad erfyniol ei wlad |
| Uchelgais ei fywyd oedd traethu | Dychwelodd ein cyfaill mynwesol |
| Efengyl yr Iesu a’i Groes. | Tros foroedd i feysydd y gad. |
| 4 | 8 |
| Gadawodd ei wlad enedigol | Ymrestrodd tan “Faner” y “Brenin” |
| Am odre yr Andes ym mhell; | Yn swm y magnelau o draw |
| Mewn gobaith ac awydd angerddol | Wynebodd ar rengoedd y gelyn, |
| I ddweyd am y “Golud sydd well”. | A’i fidog yn fflam yn ei law. |
| Ymdeithiodd ym mröydd y “Wladfa”, | Ond O! weler “awen” yn tewi, |
| Fel cennad y Nef ar ei daith, | Distawodd ei delyn a’i gainc |
| A’r Brodyr hyd heddyw atgofia, | Gorphwysa gweddillion ein “Tedi” |
| Ei sêl ddros ei Geidwad a’i waith. | Ym meddrod yr “Arwr” yn Ffrainc. |

Tal-y-bont, E.Evans

GJ

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocs a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS IN PEOPLE | BUDSODDWR YN YR Eiddo | MEWN POBL

Eira – Y Difrod a'r Prydfethwch

Diwreiddiwyd cannoedd o goed gan y gwynt o'r dwyrain o gwmpas Dydd Gŵyl Ddewi. Dioddefodd Allt y Crib yn arbennig. Dyma lun o'r llwybr o Dal-y-bont i gyfeiriad Rhoslan dros Allt y crib. Gweler bod rhan isaf y llwybr wedi ei gau gan nifer fawr o goed tal, bythwyrdd. Gellir mynd heibio gyda gofal ond mae'n drafferthus ac yn beryglus iawn. Yn yr ail lun dangosir y niwed difrifol a wnaeth yr eira i un o dai allan Pen y Wern. Ond mae *Papur Pawb*, hyd yn oed yn fwy na'r BBC, yn awyddus i gynnig "cydbwysedd" bob amser i'n darllenwyr, felly fel trydydd llun rydym yn dangos yr ochr arall, sef y prydfethwch arallfydol mae'r eira hefyd yn gallu ei roi i'r ardal hon.



Coed wedi disgyn ar draws y llwybr



Difrod Pen y Wern



Diolch i Ruth Dennis o Dal-y-bont am y llun

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 13 Mawrth, a'r wraig wadd oedd Delyth Morris Jones, Tŷ Mawr, Ponterwyd. Teitl ei sgwrs oedd 'Llyfrau ar fy silff' a daeth â dau focs o lyfrau gyda hi ar wahanol bynciau, megis llyfr o luniau blodau a barddoniaeth, hen lyfrau coginio, mapiau, llyfr emynau a Beiblau'r teulu ac adroddodd stori neu hanesyn diddorol am bob un. Roedd pawb wedi mwynhau ei chyflwyniad yn fawr iawn, a diolchwyd i Ann Jenkins ac Ann Jones am baratoi'r te a'r cacennau ar y diwedd.

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

erbyn Cyfarfod Blynyddol 2019

hefyd:

YSGRIFENNYDD Y BABELL (dros dro)

mor fuan â phosib.

Cysyllter â Susan Rowlands

01970 832 215



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

argraffu da
am bris da



holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfaf.com

Teyrngedau

Lewis Jones, Ynys Hir, Eglwysfach

Daeth tro ar fyd at Fferm Ynyshir, Eglwysfach, fore Ddydd Iau, 8^{fed} o Fawrth, pan ddaeth y newydd drist am farwolaeth sydyn Lewis Jones, ar ôl dioddef salwch byr a chreulon, ac yntau ond 77 mlwydd oed.

Yn fab hynaf i Ieuan a Mair Jones, fe symudodd y teulu o Fferm Penlanlas, Rhydyfelin, i Ynyshir, a Lewis yn chwech oed, ynghyd â'i ddiweddar frawd Ifan, ac yno y bu Lewis yn byw am weddill ei fywyd. Fe anwyd dau frawd arall, sef Tomos a William.

Bu Lewis yn mynychu Ysgol Gynradd Eglwysfach, Ysgol Ramadeg Ardwyn, ac ar ôl gadael ysgol fe dreuliodd flwyddyn yng Ngholeg Glynllifon.

Fferm laeth oedd Ynyshir ar y dechrau, ond newidiodd Lewis y fferm i gynhyrchu biff a chig oen. Nid ellir disgrifio Lewis ond fel amaethwr o'i ben i'w draed; ei brif ddiddordeb oedd ym myd y gwartheg.

Mae ein cydymdeimlad dwys â'i briod, Eirlys, a'r plant a'i teuluoedd, a'r wryon. Dyfyniad ar waelod y daflen angladdol oedd 'Yn fy ngwaith yr oedd fy Mywyd', ac felly y cofiwn Lewis.

George Arthur Rowlands

Trist iawn yw cyfnodi marwolaeth brawychus o sydyn, George Arthur Rowlands, Penddôl, Eglwysfach, ar y 23^{ain} o Chwefror, un o gymeriadau Cymraeg yr ardal, ac yntau ond 68 mlwydd oed.

Roedd yn fab i'r diweddar Iona Rowlands, Taliesin, ac yn wŷr i'r diweddar Mr a Mrs William Hopkins, Melindwr, Eglwysfach. Roedd George yn gymeriad hoffus, diymhongar, ac yn unigolyn. Byddai i'w weld yn aml yn troedio llwybrau yr ardal, gyda'i gi defaid ffyddlon, Zac. Mae'n debyg fod George, yn ei ieuenctid, wrth ei fodd yn beicio o amgylch Cymru.

Roedd ganddo radd mewn Gorchwyliaeth Wledig, ac ar hyd ei yrfa, fe gafodd amrywiaeth o swyddi. Ar ôl gadael ysgol, bu yn gweithio yn Ysbyty Bronglais, yn yr adran Pelydr X. Treuliodd amser yn gweithio ar Gors Fochno, ac yn ddiddorol iawn, fe fu am ysbaid yn byw yng Ngroeg, yn gofalu am ddiadell o eifr.

Mae'n cydymdeimlad dwys â'i fab, Cerac, sydd yn byw yng Nghaerdydd, a'i deulu cyfagos.

Penodi yn Uchel Siryf

Ar Sul y Blodau penodwyd Kit Ellis, Dolclettwr gynt, yn Uchel Siryf Gwynedd mewn gwasanaeth Datganiad yn Eglwys St. Aelhaearn. Dilynwyd â the prynhawn ar aelwyd Llwyndyrus Farm, Pwllheli. Yn y llun gwelir Arglwydd Raglaw Edmund Bailey, Kit Ellis a'r Barnwr Nic Parry.

Pennodwyd Nia Watkin Powell (a oedd yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch yn y 70au) yn Fardd i'r Uchel Siryf.

Braf iawn yw cael dweud mai Kit ydi'r trydydd Uchel Siryf i fyw yn Llwyndyrus Farm. Y ddau arall oedd Griffith ap William Madog 1547 (ac hefyd yn 1553) a Richard Vaughan 1578 – amser maith yn ôl!



Dewch i fwynhau

DRAMA

yn eich cymuned leol!



Nos Wener 20fed Ebrill 2018 am 7:30

Neuadd Penrhyncoch

Darparu Drama Dinas Mawddwy yn cyflwyno

Pwy yw dy Gymydog gan Iwan Gruffydd

Darparu Doli Misiys yn cyflwyno

Tu Hwnt i bob Gofid gan Sion Pennant

Darparu Lloris Osborn yn cyflwyno

A'r Maglau Wedi Torri gan Emyr Edwards

Nos Fercher 25ain Ebrill 2018 am 7:30

Neuadd Rhydypennau, Bow Street

Clwb Fflemwyr Ifanc Tal-y-bont yn cyflwyno Pantomeim

Dafydd ap Gwilym ap Gwrach ap Potel gan Eleri Penrhyn

Darparu Doli Misiys yn cyflwyno

Tu Hwnt i bob Gofid gan Sion Pennant

Darparu Lloris Osborn yn cyflwyno

A'r Maglau Wedi Torri gan Emyr Edwards

Nos Iau 3ydd Mai 2018 am 7:30

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Darparu Morian yn cyflwyno Ankriwl gyfloc

Donald Bricit a Stryd y Domen gan Sion a Iwan Gruffydd

Darparu Doli Misiys yn cyflwyno

Y Fainc gan Emyr Edwards

Darparu Doli Misiys yn cyflwyno

Tu Hwnt i bob Gofid gan Sion Pennant

Tecynysu wrth y drws, £5.00 i odolion, £2.50 i blant dan 16 a chomisiynau
Arllwngwyl gylch 100m gan Gwyls Elen

Am fwy o fanylion, ewch i
www.dramadegwyls.co.uk
neu agoriwch y cod QR o'r blaen



Alun Davies

Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA

E alun.davies142@btinternet.com



Menter Cletwr yn dathlu pump oed Torri pob record dros y Pasg



Mae pob mis yn Cletwr yn fwyfwy diddorol a chyffrous! Rydym newydd gael ein hwythnos brysuraf (eto) dros y Pasg, gyda record arall am y nifer o bobl yn y caffi Ddydd Gwener y Groglith. Diolch eto i'r staff a'r gwirfoddolwyr i gyd am weithio mor galed, ac am ddal i wenu drwy'r amser. Mae naws y lle yn anhygoel.

Ond, ar wahân i hynny, beth arall sydd wedi bod yn digwydd? Mae'r rhaglen o ddigwyddiadau yn parhau, gyda nifer o sgysiau gyda'r nos ar bynciau amrywiol. Sesiynau Crefft i'r plant, gemau bwrdd, coffi a chlonc i ddod â dysgwyr ynghyd â siaradwyr rhugl eu Cymraeg a llawer mwy. Dewch i mewn a gofyn am ddigwyddiadur neu dilynwch ni ar Facebook a Thrydar. Rhywbeth sy'n digwydd drwy'r amser yw'r arddangosfeydd celf. Mae un gan nifer o bobl ifainc dawnus iawn yr ardal newydd dod i ben, a nawr rydyn ni'n dangos gwaith yr arlunydd Malcolm Ryan o Ynyslas. Fel bonws, mae ail arddangosfa i'w gweld – nifer o gwiltiau prydferth gan bobl fedrus lleol. Dewch i mewn am ddisghled ac edrych o gwmpas.

Mae'r gwaith tu allan i wneud y safle yn fwy deniadol hefyd yn parhau. Mae llawer o blanhigion wedi'u gosod gan ein criw o arddwyr, dan arweinyddiaeth Juliet Regan - pan ddaw y haf bydd Cletwr yn wledd o liw! Byddem yn croesawu mwy o wirfoddolwyr

i helpu gyda'r gwaith, ac rydym yn falch dderbyn cyfraniadau o blanhigion sbâr o'ch gardd chi. Gofynnwch yn y siop am fanylion o beth sydd eisiau.

Wrth feddwl am wirfoddolwyr, mae llawer o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o'r gymuned sy'n "Cletwr". Criw newydd yw'r "pobyddion p'nawn" – pobl sy'n mwynhau pobi a choginio sy'n dod i mewn i bobi teisennau i'r caffi, ac yn cael hwyl ar yr un pryd. Dyna un o'r manteision o wirfoddoli – dydy e ddim yn teimlo fel gwaith! Mae'n gyfle i chi adael y tŷ, cymdeithasu â phobl eraill, efallai dysgu sgiliau newydd, helpu pobl eraill a hybu'r Gymraeg yn y gymuned. Felly, os ydych chi'n trigo yn yr ardal, boed fenyw neu ddyn, ifanc neu dros oed yr addewid, dewch i mewn ac ymuno â ni.

Mae unigrwydd yn broblem fawr erbyn hyn. Rydym wedi lansio prosiect i geisio lleihau'r broblem – ein bwrdd "Clonc a Chlebran": bwrdd yn y caffi ar gyfer y sawl sydd ar ei ben ei hun ond sy'n fodlon sgwrsio gyda phobl eraill. Mae arwyddion ar y bwrdd i esbonio'r syniad. Pam eistedd ar eich pen eich hun yn llygadrythu ar eich ffôn symudol? Sgwrsio! Un cam bach...

Mae sbwriel ar ymylon y ffyrdd yn beth cas i'w weld, ac mae grŵp arall o wirfoddolwyr wedi penderfynu gwneud rhywbeth amdano. Mis diwethaf aeth criw bach o bump allan ddwywaith, dim ond am awr i gychwyn ar y dasg – 17 o fagiau duon o sbwriel! Mae llawer mwy yn dal ar ôl. Rydyn ni'n trafod y mater gyda grwpiau eraill a Chyngor Ceredigion, ac yn gobeithio gallu gweithio ar y cyd i wellha golwg ein hardal.

Mis nesaf... bydd penwythnos 12^{fed}/13^{fed} o Fai yn un neilltuol yn hanes Cletwr. Byddwn ni'n dathlu ein pen-blwydd pump oed. Sgersli bilif! Mae'r tîm yn trefnu penwythnos llawn hwyl a sbri at ddant bawb - mwy o fanylion i ddilyn ond cadwch y dyddiad yn rhydd!

Nigel Callaghan

Y Gair Olaf



Wrth deithio o gwmpas y wlad ar fws, trên neu ar droed, yn aml bydda i'n digalonni'n llwyr o weld cymaint o 'anialwch gwyrdd' yn y caeau, a lawntydd diflas anysbyrdoledig yng ngerddi pobl. Y math o wyrddni artiffisial 'na heb yr un blodyn gwyllt ar ei gyfyl na blodau eraill chwaith o ran hynny. Mae hyn yn golygu dim bwyd i'r peillwyr, y creaduriaid bychain gwerthfawr rydyn ni'n dibynnu arnynt i dyfu ein bwyd ninnau. Maen nhw'n dweud bod mwy o blanhigion addas iddynt mewn dinasoedd erbyn hyn nac yng nghefn gwlad lle mae chwynladdwyr a phlaladdwyr yn cael eu gorddefnyddio – sefyllfa wirion bost!

Efo llawer o broblemau dyrys yr hen fyd 'ma mae'n hawdd teimlo'n hollol ddiymadferth yn eu cylch ond o leiaf mi allwn ni i gyd wneud rhywbeth adeiladol i helpu ein gwenyn, ieir bach yr haf, gwyfynod ac yn blaen, sef plannu cymaint o'u hoff flodau yn ein gerddi ag sy'n bosib ar gyfer pob tymor. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae gynnon ni batshyn mawr o rug yn yr ardd ac mae'n drwch o wenyn mêl a chacynod pan fydd yr haul allan – mae'n llonni'r galon. Felly beth amdani eleni? Pe bai pob un ohonon ni'n gwneud ymdrech i ystyried y peillwyr yn ein gerddi a phlannu'r planhigion y maent yn eu hoffi, byddai'r fro yma'n baradwys iddynt a bydden ninnau'n cael y boddhad o wneud gwir wahaniaeth i'r creaduriaid hollbwysig hyn ac i fioamrywiaeth yn gyffredinol.

Siân Saunders

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr CLERC I'R CYNGOR

Gwahoddir ceisiadau am y swydd rhan-amser
(tua 34 awr y mis) uchod i ddechrau cyn gynted â phosib.

Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â
Lowri Jones: 07886 367027 | cyngorcam@gmail.com

Dyddiad cau: 27 Ebrill 2018

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg
yn hanfodol i'r swydd yma.

CHWARAEON

Chwarae i'r 'Scarlets'

Llongyfarchiadau i Dylan Wyn Benjamin, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, a disgybl yn Ysgol Penweddig, ar gael ei ddewis i gynrychioli tîm rygbi dan 16 oed y 'Scarlets', Llanelli. Ar 2 Ebrill, roedd Dylan yn chwarae yn safle'r mewnwr mewn gêm gystadleuol iawn yn erbyn y Gweilch ar faes Ystrad Mynach. Yn anffodus enillodd y Gweilch o 29 pwynt i 19. Edrychwn ymlaen yn awr i weld Dylan yn datblygu'i yrfa ar y maes rygbi ac efallai mai ef fydd y cyntaf o'r pentref i ennill cap dros ei wlad. Dim pwysau Dylan!



Rhedeg Marathon



RHEDEG MARATHON. Jane Bailey, Troedrhwiwseiri, Bontgoch yn codi arian at achos da drwy redeg marathon Llundain

Gobaith Newydd i'r Gymraeg

Cyfarfod cyhoeddus gyda

**Heini Gruffudd
Cynog Dafis**

Cadeirydd: **Rebecca Williams**
(Swyddog Polisi, UCAC)

**Nos Fawrth, 24ain Ebrill am 7.30 yh
yng nghanolfan Arad Goch, Aberystwyth**

Croeso cynnes i bawb

Llais i'r Iaith

www.dyfodol.net
post@dyfodol.net

Uchelfannau a'r Iselfannau Hyfforddi Tîm Pêl-droed Iau

Mae nifer o heriau wrth hyfforddi tîm pêl-droed iau, yn enwedig ar y lefel dan 8 oed. Yn gyntaf, mae'n bwysig bod pob plentyn yn cael chwarae, waeth beth yw ei allu. Sut arall mae plentyn yn mynd i ddatblygu ei sgiliau ar faes pêl-droed os nad ydyw'n chwarae?

Mae gennym ddau dîm yn Nhal-y-bont ar lefel dan 8 sydd â chyfanswm o 18 o chwaraewyr. Mae'n her i gadw'r HOLL chwaraewr yn hapus wrth hyfforddi neu mewn gemau Sadwrn.

Dylai gemau cyntaf y tymor yn gynnar ym mis Medi gael eu chwarae ar fore Sadwrn cynnes braf ond, fel y bu'r tywydd am y rhan fwyaf o'r tymor, roedd hi mor oer fel bod ein gôl-geidwad (nid yr un arferol, nad oedd ar gael) wedi'i wreiddio yn y fan a'r lle gyda dwylo oer, er ei fod yn gwisgo menig. Nid oedd crasfa ar ddiwrnod cyntaf y tymor yn ddechrau da.

Ar yr un diwrnod, roedd yn rhaid i'r tîm arall ddod oddi ar y cae am bum munud oherwydd glaw trwm ond wedi bod yn colli o ddwy gôl cyn y storm, llwyddwyd i sgorio tair i ennill y gêm 3-2.

Yn anaml iawn y ceir gemau sgoriau isel pan fydd dau dîm dan 8 yn chwarae ar gae Penweddig ac yn y gemau 'derby' rhwng y ddau dîm, profwyd mai tîm A yw'r cryfaf gan ennill o 7-4, 4-1 ac 8-5 y erbyn tîm B.

Wrth i'r tywydd waethgu dros fisoedd y gaeaf, symudwyd y gemau oddi ar gaeau chwarae Penweddig i'r Cae 3G ar Goedlan y Parc, Aberystwyth. Er gwaethaf hyfforddiant ar y cae hwnnw bob dydd Iau, mae ceisio rheoli'r bêl ar wyneb artiffisial ar gae bach yn anodd i chwaraewyr ifanc yn arbennig gan fod y cae wedi'i rannu'n dair ar y dydd Sadwrn.

Wrth hyfforddi, pan fo'r plant yn gorfod ffurfio ciw wrth ymarfer driliau, gall camymddwyn weithiau fod yn broblem, felly mae gennym gardiau melyn a choch wrth law. Mae unrhyw un sy'n camymddwyn y tro cyntaf yn cael cerdyn melyn sy'n golygu bod yn rhaid iddynt gymryd amser allan am ddwy funud. Pe bai'r un chwaraewr yn camymddwyn eto yn ystod yr un sesiwn, caiff gerdyn coch sy'n golygu ei fod yn cael ei anfon i'r stand am 15 munud. Pan fydd plant yn cael cosb fel hon, gan wybod y byddant efallai'n colli rhan o'r sesiwn hyfforddi, mae ymddygiad y plant yn gwella'n syfrdanol ac, hyd yn hyn, mae'n syndod nad ydym eto wedi dangos unrhyw gerdyn i unrhyw chwaraewr -- hyd yn hyn!

Er gwaethaf y tywydd, mae chwaraewyr yn mwynhau chwarae ar gyfer ieuencid Tal-y-bont, a chydaw mwy o chwaraewyr newydd o dîm bach i'n tîm dan 6 newydd, gobeithio y bydd y dyfodol yn un disglair i Glwb Ieuencid Tal-y-bont a'r Cylch.

Mark Evans



Mae wedi bod yn hynod o oer yn ystod gaeaf a'r gwanwyn ac felly roedd angen i aelodau'n timau pêl-droed ieuencid wisgo'n addas er mwyn cadw'n dwym. Dyma chwaraewyr tîm dan 12 oed Tal-y-bont yn cystadlu am y bêl yn erbyn bachgen a wisgai hwdi i'w gadw'n gynnes! (Llun trwy garedigrwydd Beverley Hemmings)